Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

Ein Cyf: CXR-1A

09/07/2026

Annwyl Breswylydd,

**Cledrau Croesi Caerdydd Cam 1A – Diweddariad ar Waith Stryd Bute**

Rydym yn ysgrifennu i'ch hysbysu am waith i ddod ar y rhwydwaith priffyrdd, fydd yn cynnwys newidiadau dros dro i drefniadau traffig yn eich ardal chi.
Mae trawsnewid Sgwâr Callaghan yn rhan o gam cyntaf Cledrau Croesi Caerdydd – llwybr tram-drenau newydd sy'n cysylltu Gorsaf Caerdydd Canolog â Bae Caerdydd. Mae hwn yn gam mawr tuag at rwydwaith ehangach fydd yn y pen draw yn cysylltu Plasdŵr yng ngogledd-orllewin y ddinas â gorsaf arfaethedig Parc Caerdydd yn y dwyrain.
Bydd y prosiect hefyd yn darparu platfformau tramiau newydd yn y ddwy orsaf, tramffordd trac deuol trwy Sgwâr Callaghan, mannau cyhoeddus gwell, cynlluniau ffyrdd mwy diogel, a llwybrau cerdded a beicio newydd.

**Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd rhan o Stryd Bute ar gau i gerbydau o 7.30pm 24 Gorffennaf am oddeutu 6 wythnos.**
Yn ystod y cyfnod hwn:

- Bydd Stryd Bute rhwng Stryd Maria a Stryd Ogleddol yr Eglwys ar gau i draffig
- Bydd Stryd Ogleddol yr Eglwys ond yn hygyrch o Sgwâr Callaghan
- Bydd Stryd Maria ond yn hygyrch o ben deheuol Stryd Bute
- Mae llai o lonydd yn dal i fod ar waith yn Sgwâr Callaghan
- Caniateir mynediad i gerddwyr drwy'r amser

Yn ogystal, o **9pm ddydd Gwener 24 Gorffennaf a 6am ddydd Llun 27 Gorffennaf** ni fydd mynediad i gerbydau i Stryd Ogleddol yr Eglwys.

Mae'r system rheoli traffig yn hanfodol er mwyn caniatáu i'r gwaith canlynol gael ei wneud yn ystod y cam hwn.

- Dargyfeiriadau mawr ar gyfer cyfleustodau o dan y lôn gerbydau - gan gynnwys adleoli prif gyflenwad nwy pwysedd uchel yn ddiogel
- Creu ardal waith ddiogel, ddi-draffig i ddiogelu'r cyhoedd a'r staff sy'n gweithio ar y safle.

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd angen sawl cam rheoli traffig i gwblhau'r prosiect. Bydd hyn yn cynnwys cau rhannau o Stryd Bute ymhellach, a newidiadau i'r llwybr o amgylch ardal Sgwâr Callaghan. Byddwn yn parhau i'ch diweddaru wrth i'r gwaith fynd rhagddo a byddwn yn eich hysbysu ymlaen llaw yn ystod pob

*Caiff eich gwybodaeth ei phrosesu dan Ddeddf Diogelu Data 2018 i gyflawni tasgau cyfreithiol a rheoliadol Cyngor Caerdydd fel awdurdod lleol. I gael rhagor o wybodaeth am y data personol sydd gennym ac am ba hyd y byddwn yn ei gadw, gweler ein Polisi Preifatrwydd; www.caerdydd.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd. Os oes gennych bryderon am y modd y cafodd eich data ei drin, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Cyngor yn diogeludata@caerdydd.gov.uk.* Mae eich gwybodaeth wedi cael ei rhannu â PSL er mwyn cysylltu â chi heddiw. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae PSL yn rheoli data personol, gweler y Polisi


cam o'r prosiect. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar wefan GRAHAM [www.graham.co.uk/cledrau-croesi-caerdydd](www.graham.co.uk/cledrau-croesi-caerdydd)

Byddwn yn cynnal sesiwn galw heibio i breswylwyr a busnesau lleol ddod i siarad â thîm y prosiect a'r contractwr, GRAHAM, am adeiladu'r prosiect. Mae'r sesiwn galw heibio nesaf ar **Dydd Iau 23 Gorffennaf 11am-3pm** yng Nghanolfan Gymunedol Butetown, Sgwâr Loudoun, Caerdydd, CF10 5UZ.


Rydym yn deall y bydd hyn yn achosi aflonyddwch ac rydym wedi cynnwys llwybrau gwyriadau gyda'r llythyr hwn. Mae'r gwaith hwn yn fuddsoddiad hirdymor mewn system drafnidiaeth wyrddach, fwy cynaliadwy a hygyrch i Gaerdydd, ac rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd wrth i'r gwelliannau hyn gael eu cyflawni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â thîm y prosiect.
Yn gywir,
Tîm y Rhaglen Drafnidiaeth
Cyngor Caerdydd

**Cysylltu â ni:**
**Cyngor Caerdydd**: TimyRhaglenDrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk.
**GRAHAM:** civilscustomerrelations@graham.co.uk



Mynediad i Stryd Ogleddol yr Eglwys yn ystod y cam hwn o'r gwaith:




Mynediad i Stryd Bute, i'r de o Stryd Maria yn ystod y cam hwn o'r gwaith

